YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD Iau, 6 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G.H. John (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
B Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd
C. Owen, Swyddog Biwro
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.50 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 21AIN GORFFENNAF 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Gorffennaf 2022, gan ei fod yn gywir.

3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR AR CRONFA BUDD CYMUNEDOL MYNYDD Y BETWS

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cyllid a Dargedir a Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:

Gronfa Cyllid a Dargedir	
Yr Ymgeisydd	**Y Dyfarniad**
Angor	£18,470.35
Tregib Sports Facilities Ltd	£20,000.00

Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws	
Yr Ymgeisydd	**Y Dyfarniad**
Amman United RFC	£13,700.00
Black Mountain Centre	£5,904.80
Brynamman Public Hall & Institute	£10,000.00
Caerbryn Welfare Association	£15,000.00
Cwmamman Town Council	£15,000.00
Cwmamman United AFC	£5,922.40
Penybanc RFC	£15,000.00
Cwmaman Community Centre Management Group	£4,456.67

4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. BENTHYCIAD CANOL TREF

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r unigolion a'r busnesau a nodir yn yr adroddiad o dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried cais a dderbyniwyd ar gyfer Benthyciad Canol Tref.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am Fenthyciad Canol Tref yn amodol ar y telerau ac amodau arferol a'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad:

Yr Ymgeisydd	Y Dyfarniad
Tinworks Brewing Company Ltd	£143,812.50

_____ _____

AELOD O'R CABINET DYDDIAD